



Cyngor Sir Gaerfyrddin

Rhaglen Hyfforddiant ar y cyd i ddarparwyr Gofal Plant a Chwarae

- Sir Gaerfyrddin

MAI - GORFFENNAF 2019



Gwybodaeth Teuluoedd, Gofal Plant a Chwarae
Family Information, Childcare and Play



Rhagarweiniad

Mae'r llyfryn hwn yn darparu manylion ynghylch yr holl gyrsiau hyfforddiant a ddarperir gan y Tîm Gwybodaeth i Deuluoedd, Gofal Plant a Chwarae a'r y Tîm Dechrau'n Deg rhwng mis Mai - Gorffennaf 2019.

Tîm Gwybodaeth i Deuluoedd, Gofal Plant a Chwarae

Mae'r Tîm Gwybodaeth i Deuluoedd, Gofal Plant a Chwarae yn cynllunio a chydlynu cyrsiau hyfforddi sy'n ofynnol gan Arolygaeth Gofal Cymru (AGC) ac maen nhw'n agored i'r holl ddarparwyr gofal plant a chwarae yn Sir Gaerfyrddin. Mae'r cyrsiau achrededig yn cynnwys Cymorth Cyntaf Pediatrig, Cyflwyniad i Amddiffyn Plant, Hylendid Bwyd Sylfaenol (cyrsiau llawn a chyrtsiau gloywi) ac ati.

Caiff y cyrsiau hyn eu cyllido'n sylweddol gan yr Awdurdod Lleol a chaniateir dau aelod o staff yn unig o bob lleoliad i fynychu'r cwrs. Er mwyn archebu lle ar y cyrsiau gofynnol hyn, cysylltwch â'r Tîm Gwybodaeth i Deuluoedd, Gofal Plant a Chwarae ar 01267 246560 (dydd Mawrth i ddydd Iau). Gellir cael rhagor o wybodaeth am yr ystod o wasanaethau rydym yn eu cynnig ar hyn o bryd ar: <http://ggd.sirgar.llyw.cymru>



Tîm Dechrau'n Deg

Yn gyffredinol, mae'r cyrsiau a restrir ar gyfer Meithrinfeydd sydd â Chontract Dechrau'n Deg yn canolbwyntio ar wella arferion gwella ansawdd ac yn cynnig cyfleoedd datblygu proffesiynol parhaus i ymarferwyr, arweinwyr a rheolwyr ym maes gofal plant. Nid ydynt yn canolbwyntio ar gyrsiau gofynnol yr AGC. Maen nhw yn bennaf ar gyfer Meithrinfeydd â Chontract Dechrau'n Deg ac maent yn rhad ac am ddim. Fe'u cynhelir yn ystod oriau gwaith gan amlaf, sy'n golygu bod cyllid ôl-lenwi ar gael (yn amodol ar gyllideb) i leoliadau Dechrau'n Deg yn unig, er mwyn rhyddhau staff i ddod i'r cyrsiau o dan eu cytundebau contractiol.

Mewn achosion lle nad yw cyrsiau wedi'u llenwi gan leoliadau sydd â chontract Dechrau'n Deg, gallwn gynnig y llefydd gwag i'r Sector Gofal Plant ehangach (meithrinfeydd nad oes ganddynt contract â Dechrau'n Deg). Felly, rydym yn annog unrhyw leoliad gofal plant, meithrinfa neu grŵp chwarae nad ydynt yn rhan o Dechrau'n Deg i ffonio 01554 742447 er mwyn rhoi enwau ar y rhestr aros. Os yw llefydd yn dod ar gael, byddwn yn cysylltu â'r staff sydd ar y rhestr aros er mwyn cynnig lle iddynt. Ond yn anffodus, ni ellir cynnig cyllid ôl-lenwi i leoliadau nad ydynt yn rhan o Dechrau'n Deg. Gellir cael rhagor o wybodaeth am yr ystod o wasanaethau rydym yn eu cynnig ar hyn o bryd ar:

<http://ggd.sirgar.llyw.cymru>





Cyrsiau Hyfforddi Mai i Gorffennaf 2019

Dyddiad	Dydd + Amser	Manylion Cwrs	Darparwr	Lleoliad	Pris
Ebrill 4ydd	Dydd Iau 9:30am – 12pm	Gweithdy Adeiladu a Byd Bach Yn pwysleisio pwysigrwydd chwarae byd bach a chwarae adeiladu a'r manteision i ddatblygiad plant. Yn canolbwyntio ar syniadau byd-eang Creadigol, modelu sothach ac adeiladu tai.	Rebecca Woods & Jasmin Lewis - Hovey	Canolfan Dysgu Dechrau'n Deg Hen Ysgol Babanod Morfa Stryd Newydd Llanelli SA15 2DQ I gadarnhau lle cysylltwch â Swyddfa Dechrau'n Deg Ffôn: (01554) 742447	DD yn unig
Mai 8fed	Dydd Mercher 9:30am – 12pm	Gweithdy Chwarae Gyda Numicon Dysgu chwarae gyda Numicon i helpu i ddatblygu datblygiad mathemategol. Gweithgareddau ymarferol a phecyn adnoddau am ddim i bresenoldeb	Hayley Davies & Julie Day	Canolfan Dysgu Dechrau'n Deg Hen Ysgol Babanod Morfa Stryd Newydd Llanelli SA15 2DQ I gadarnhau lle cysylltwch â Swyddfa Dechrau'n Deg Ffôn: (01554) 742447	DD yn unig

Dyddiad	Dydd + Amser	Manylion Cwrs	Darparwr	Lleoliad	Pris
Mai 11eg + Mai 14eg	Sadwrn 11eg 8.30yb – 5.30yp Mawrth 14eg 5.30yp – 9yh	Cwrs Achrededig Cymorth Cyntaf Pediatrig (Yn cynnwys - llosgi, tagu, adfywio, ayyb) Rhaid i chi fod mewn iechyd da i gymryd rhan yn weithdrefnau argyfwng adfywio'r galon a'r ysgyfaint. Cwrs 12 awr gyda gwaith cartref Ni chaniateir mynediad i gyfranogwyr os ydynt 15 munud yn hwyr.	Craig Purnell Cel Training Gwisgwch yn briodol!	Neuadd Goffa Heol Coalbrook Pontyberem Llanelli SA15 5HU	£30
Mai 18fed	Sadwrn 9.30yb – 4yp	Cyflwyniad i Amddiffyn Plant (Beth i edrych amdano, cyfeirio, ac yn y blaen)	Catrin Goodwin Clybiau Plant Cymru	Neuadd Goffa Heol Coalbrook Pontyberem Llanelli SA15 5HU	£12

Dyddiad	Dydd + Amser	Manylion Cwrs	Darparwr	Lleoliad	Pris
Mai 22ain	Mercher 9:30am – 12pm	Gweithdy Datblygu Awyr Agored Yn canolbwyntio ar hyrwyddo chwarae awyr agored a datblygu ardaloedd awyr agored yn ogystal â'r manteision sydd ganddo ar ddatblygiad pob plentyn	Tim Dechrau'n Deg	Canolfan Dysgu Dechrau'n Deg Hen Ysgol Babanod Morfa Stryd Newydd Llanelli SA15 2DQ I gadarnhau lle cysylltwch â Swyddfa Dechrau'n Deg Ffôn: (01554) 742447	DD yn unig
Mehefin 8fed	Sadwrn 9yb – 4.30yp	Tystysgrif Sylfaenol Hylendid Bwyd (Rhaid dod a phrawf adnabod gyda chi)	Nathan Carroll Ore Knot Hub Creadigol	Ore Knot 27 Stryd y Bont Caerfyrddin SA31 3JS	£30

Dyddiad	Dydd + Amser	Manylion Cwrs	Darparwr	Lleoliad	Pris
Mehefin 15fed + Mehefin 18fed	Sadwrn 15fed 8.30yb – 5.30yp Mawrth 18fed 5.30yp – 9yh	Cwrs Achrededig Cymorth Cyntaf Pediatrig (Yn cynnwys - llosgi, tagu, adfywio, ayyb) Rhaid i chi fod mewn iechyd da i gymryd rhan yn weithdrefnau argyfwng adfywio'r galon a'r ysgyfaint Cwrs 12 awr gyda gwaith cartref <u>Ni chaniateir mynediad i gyfranogwyr os ydynt 15 munud yn hwyr.</u>	Craig Purnell Cel Training <u>Gwisgwch yn briodol</u>	***Lleoliad Newydd*** Cartref Cynnes Johnstown Heol Llansteffan Caerfyrddin SA31 3NQ	£30
Mehefin 17eg	Llun 9:30am- 12pm	Gweithdy Dwr a Thywod Yn canolbwyntio ar fanteision chwarae tywod a dŵr ar ddatblygiad plant. Sesiwn ymarferol gyda syniadau gweithgareddau dwr a thywod	Rebecca Woods & Hayley Davies	Canolfan Dysgu Dechrau'n Deg Hen Ysgol Babanod Morfa Stryd Newydd Llanelli SA15 2DQ I gadarnhau lle cysylltwch â Swyddfa Dechrau'n Deg Ffôn: (01554) 742447	DD yn unig

Dyddiad	Dydd + Amser	Manylion Cwrs	Darparwr	Lleoliad	Pris
Mehefin 22ain + Mehefin 25ain	Sadwrn 22ain 8.30yb – 5.30yp Mawrth 25ain 5.30yp – 9yh	Cwrs Achrededig Cymorth Cyntaf Pediatrig (Yn cynnwys - llosgi, tagu, adfywio, ayyb) Rhaid i chi fod mewn iechyd da i gymryd rhan yn weithdrefnau argyfwng adfywio'r galon a'r ysgyfaint. Cwrs 12 awr gyda gwaith cartref <u>Ni chaniateir mynediad i gyfranogwyr os ydynt 15 munud yn hwyr.</u>	Craig Purnell Cel Training <u>Gwisgwch yn briodol</u>	Neuadd Goffa Heol Coalbrook Pontyberem Llanelli SA15 5HU	£30
Mehefin 29ain	Sadwrn 9.30yb – 4yp	Cyflwyniad i Amddiffyn Plant (Beth i edrych amdano, cyfeirio, ac yn y blaen)	Catrin Goodwin Clybiau Plant Cymru	***Lleoliad Newydd*** Cartref Cynnes Johnstown Heol Llansteffan Caerfyrddin SA31 3NQ	£12

Dyddiad	Dydd + Amser	Manylion Cwrs	Darparwr	Lleoliad	Pris
Gorffennaf 6ed + Gorffennaf 9fed	Sadwrn 6ed 8.30yb – 5.30yp Mawrth 9fed 5.30yp – 9yh	Cwrs Achrededig Cymorth Cyntaf Pediatrig (Yn cynnwys - llosgi, tagu, adfywio, ayyb) Rhaid i chi fod mewn iechyd da i gymryd rhan yn weithdrefnau argyfwng adfywio'r galon a'r ysgyfaint Cwrs 12 awr gyda gwaith cartref <u>Ni chaniateir mynediad i gyfranogwyr os ydynt 15 munud yn hwyr.</u>	Craig Purnell Cel Training <u>Gwisgwch yn briodol</u>	***Lleoliad Newydd*** Cartref Cynnes Johnstown Heol Llansteffan Caerfyrddin SA31 3NQ	£30
Gorffennaf 13eg	Sadwrn 9yb – 4.30yp	Tystysgrif Sylfaenol Hylendid Bwyd (Rhaid dod a phrawf adnabod gyda chi)	Nathan Carroll Ore Knot Hub Creadigol	Neuadd Goffa Heol Coalbrook Pontyberem Llanelli SA15 5HU	£30

Dyddiad	Dydd + Amser	Manylion Cwrs	Darparwr	Lleoliad	Pris
Gorffennaf 13eg	Sadwrn 10yb – 2yp	<p>Cyflwyniad i Gwaith Chwarae</p> <p>Hyfforddiant o 4 awr yn cyflwyno Gwaith-Chwarae (An-Achrededig)</p>	<p>Caryl Alban</p> <p>Swyddog Chwarae Digonolrwydd</p> <p>(Gwybodaeth Teuluoedd, Gofal Plant a Chwarae)</p> <p><u>Gwisgwch yn briodol</u></p>	<p>Ystafell Gweithgaredd Canolfan Hamdden Caerfyrddin Tre Ioan Caerfyrddin SA31 3NQ</p>	£6

Bydd anfoneb yn cael ei danfon allan gyda phob cwrs sy'n cael ei archebu.

*Hoffwn dynnu eich sylw; oherwydd cynnydd cost mewn hyfforddiant, ni fydd yn bosib i ni drefnu bwyd, felly a fyddwch cystal â threfnu bwyd eich hunain. Ddrwg iawn os ydy hyn yn anghyfleus.

Mae'n rhaid i gyfranogwyr sy'n dymuno canslo archeb wneud hynny 48 awr cyn dyddiad y cwrs dros y ffôn. Y rhif ffôn ar gyfer canslo cyrsiau GORCHMYNNOL yw 01267 246560 neu Gyrsiau Dechrau'n Deg 01554 742447. Bydd cyfranogwyr sy'n methu â mynychu cwrs hyfforddiant GORCHMYNNOL yn cael dirwy o £50 ac ni chaniateir iddynt archebu lle ar gyrsiau yn y dyfodol tan fod y ffi hon wedi'i thalu.

Mae'r newidiadau hyn yn angenrheidiol oherwydd bod nifer helaeth o gyrsiau heb eu llenwi a bod lleoedd yn cael eu gwastraffu. Rydym yn awyddus i sicrhau bod cynifer o staff â phosibl yn gallu cael mynediad i'r hyfforddiant sydd ei angen arnynt cyn i dystysgrifau ddod i ben. Gan fod cyllidebau'n cael eu torri, mae hyn yn fwyfwy heriol.